**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 28ain Ionawr 2013 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm.

PRESENNOL

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| C Guy-Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); V DeZouche (KPMG); R Price (Swyddfa Archwilio Cymru); J Brown (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24ain Medi 2012 i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 10.5 Gofynnodd y Cyng. Dunbar a oedd yr Awdurdod wedi colli arian grant, ac os oedd, beth oedd effaith hynny ar waith y Gwasanaeth. Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau y bu rhywfaint o anhawster wrth gytuno ar arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diogelwch cymunedol; fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r arian bellach wedi dod i law; yr unig fater na phenderfynwyd yn ei gylch oedd arian i ddarparu addysg ar atal gwrthdrawiadau ar y ffyrdd. Mae'r oedi wrth gytuno ar arian ar gyfer diogelwch cymunedol wedi golygu nad oedd y Gwasanaeth yn gallu cynnal cymaint o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ag sydd eu hangen er mwyn cyrraedd targed blynyddol yr Awdurdod, sef 30,000 o archwiliadau, ond rhagwelir y bydd 25,000 wedi eu cynnal erbyn diwedd Mawrth 2013. Felly, mae'r oedi wedi cael effaith ar yr Awdurdod, ac mae'r swyddogion yn parhau i drafod y mater gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei ddatrys yn llawer cynt yn y flwyddyn ariannol nesaf.

4 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

4.1 Roedd yr adroddiad yn cyflwyno i'r Aelodau y Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2013/14. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau'n cael eu craffu'n effeithiol, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Aeth Ms Forrest â'r Aelodau drwy'r adrddiad ac ateb cwestiynau'r Aelodau.

4.2 Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau y gellid fforddio'r rhaglen gyfalaf yn llawn, gan fynegi pryder ynghylch y cynnydd sylweddol rhagamcanol yn y gwariant cyfalaf rhwng 2013/14 a 2015/16. Cafodd yr Aelodau wybod bod hyn yn bennaf oherwydd dau brosiect mawr: sef yr Orsaf Dân arfaethedig ar gyfer Wrecsam, a'r gwaith ailfodelu mawr yng Nglannau Dyfrdwy. Yn dilyn asesiad o bortffolio eiddo'r Gwasanaeth Tân ac Achub, sefydlodd yr Awdurdod raglen dros gyfnod o wyth mlynedd a fyddai'n sicrhau bod yr holl adeiladau'n diwallu anghenion y Gwasanaeth ac a fyddai'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Rhagwelir y bydd y rhaglen wedi ei chwblhau erbyn 2014/15, ac felly nid dim ond gwaith cynnal a chadw fyddai ei angen ar yr adeiladau. Ar ôl cwblhau'r cynllun tymor hir bydd y gwariant ar gyfalaf yn llawer is nag a wariwyd yn y blynyddoedd a fu. Gofynnodd yr Aelodau am weld cynnwys paragraff yn yr adroddiad lle mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn esbonio lefel y gwariant amcangyfrifiedig ar y rhaglen gyfalaf. Hefyd, cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod gan yr Awdurdod raglen amnewid cerbydau, a drefnwyd yn flaenorol drwy gynlluniau prydlesu a'i thalu'n uniongyrchol o gyllidebau refeniw. Fodd bynnag, yn dilyn newid i Fenthyca Darbodus ar gyfer Awdurdodau Lleol, bu'n fwy cost-effeithiol prynu cerbydau trwy'r rhaglen gyfalaf.

4.3 Gofynnodd yr Aelodau a oedd gan yr Awdurdod gynllun wrth gefn rhag ofn i gyfraddau llog godi. Esboniodd Forrest fod targedau ychwanegol wrth gefn wedi eu cynnwys yn y gyllideb er mwyn rheoli taliadau petai cyfraddau llog yn codi. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor Arcwhilio gael sicrwydd y gallai'r Awdurdod reoli ei ad-daliadau petai cyfraddau llog yn

codi, a chytunwyd i argymell i'r Awdurdod neilltuo cronfa o'r tanwariant i ateb unrhyw gynnydd posibl yn y cyfraddau llog a allai effeithio ar yr Awdurdod.

4.4 Nodwyd bod y partïon i gontract yn cael eu dethol yn ôl meini prawf llym er mwyn sicrhau bod llai o risg na ddychwelir yr arian a fuddsoddir. Ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurod ond yn buddsoddi am dri mis ar y mwyaf, a hynny er mwyn lleihau'r risg a sicrhau y dychwelir unrhyw fuddsoddiadau.

4.5 **PENDERFYNWYD**

**(i ) cymeradwyo pob un o'r pedair elfen allweddol o'r adroddiad a'r argymhellion sydd ynddynt, ac argymell y rhain i'r Awdurdod Tân:**

- **(i) Dangosyddion Darbodus;**
- **(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2013/14;**
- **(iii) Y Strategaeth Fuddsoddi;**
- **(iv) Y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw;**

**(ii) cynnwys esboniad ynghylch y rheswm dros y lefel uwch o wariant ar y rhaglen gyfalaf hyd at 2015/16, a darparu sicrwydd y bydd yn aros yr un fath wedi hynny;**

**(iii) argymell i'r Awdurdod bod cronfa'n cael ei neilltuo o'r tanwariant i ymorol am unrhyw gynnydd yn y cyfraddau llog.**

5 Y STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2011-2015

5.1 Cyflwynodd Keith Williams o Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yr adroddiad sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am y strategaeth archwilio mewnol hyd at 2015.

5.2 Mae cylch gwaith Archwilio Mewnol wedi ei nodi yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y cyfnod rhwng 1af Ebrill a 31ain Mawrth 2015. Nodwyd bod KPMG yn archwilio'r gwaith archwilio mewnol er mwyn sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn unol â CIPFA a rheolau a rheoliadau perthnasol eraill. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am waith yr adran yn rheolaidd.

5.3 **PENDERFYNWYD derbyn y Strategaeth Archwilio Mewnol 2011–2015.**

6 Y LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

6.1 Cyflwynodd Victoria DeZouche o KPMG y llythyr archwilio blynyddol i'r Aelodau, a nodwyd bod yr archwilydd penodedig:

- yn rhoi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifydda, gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno barn wir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiynau;
- yn fodlon fod gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- yn rhoi tystysgrif i gadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon wedi ei gwblhau ar 27 Medi 2012.

6.2 **PENDERFYNWYD derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol, a nodi y caiff ei gyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol.**

7 Y LLYTHYR ASESIAD GWELLA

7.1 Cyflwynwyd y llythyr asesiad gwella gan Ron Price o Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n rhoi crynodeb o farn Archwilydd Cyffredinol Cymru a hefyd yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag adrodd ynghylch gwelliannau.

7.2 Roedd y llythyr yn dweud bod hunanwerthusiad yr Awdurdod wedi gwella, a bod ystod eang o wybodaeth berthnasol yn cael ei defnyddio i gyrraedd ei gasgliadau, ond mai prin yw'r defnydd o ddata cymharol. Nododd yr Aelodau bod angen i'r Awdurdod geisio cymharydd cyfatebol i'w ddefnyddio fel meincnod, ond rhagwelid y bydd rhaglen waith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, a fydd yn cynnwys rhagor o waith ar y cyd â'r ddau awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru, yn gymorth i ddatrys y mater.

7.3 **PENDERFYNWYD derbyn y Llythyr Asesiad Gwella, a nodi y bydd Adroddiad Gwella Blynyddol yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Mawrth 2013.**